



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Caban Clyd,
Ysgol Gynradd y Felinheli,
Y Wern, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4TZ**



Dyddiad cyhoeddi

18 Medi 2017

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017. Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Caban Clyd, sydd wedi ei leoli mewn caban ar safle Ysgol Gynradd y Felinheli wedi cofrestru i ddarparu gofal i hyd at 20 o blant. Gall plant o 2½ oed i fyny at oed cychwyn ysgol fynychu'r Cylch. Mae'r Cylch ar agor rhwng 11.00yb a 13.05, ac yna rhwng 13.30 – 15.30, bob dydd yn ystod tymhorau'r ysgol.

Rheolir y Cylch gan y person sydd â gofal sef Rhian Jones gyda dwy gynorthwy-ydd sef Susan Williams yn y sesiwn gyntaf a Meinir Hemming yn yr ail sesiwn. Darperir gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Caban Clyd, Y Felinheli yn hapus, dedwydd ac yn mwynhau eu hamser yn y cylch yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r staff yn ymateb i ofynion y plant ac mae perthynas hyfryd wedi datblygu rhyngddynt.

Mae'r Cylch hwn yn gartrefol a chroesawgar ac yn hwyluso'r profiad o ddechrau'r ysgol.

2. Gwelliannau

Mae'r Arweinydd wedi gwneud ymdrech dda i ddiweddarau dogfennau angenrheidiol, ond mae rhai bylchau yn parhau.

Bellach mae'r arfer o gofnodi presenoldeb staff yn y gofrestr wedi ei fabwysiadu'n llwyddiannus.

Mae'r Cylch wedi bod yn darparu diod o ddŵr i'r plant helpu eu hunain ond mae angen sicrhau bod yr arfer hwn yn cael ei gynnal bob amser.

Mae staff y Cylch yn sicrhau bod tyweli papur yn cael eu rhoi allan at ddefnydd y plant. Hefyd gwelwyd bod sedd y toiled wedi ei hatgyweirio.

Mae'r Cylch wedi adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer y cyfnod trawsnewid er mwyn sicrhau diogelwch y plant sy'n aros ymlaen o un sesiwn i'r llall.

3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad ym maes rheoli ac arweinyddiaeth, un ym maes gofal a datblygiad ac un argymhelliad ym maes Lles.

1. Lles

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, hyderus a chysurus ac yn mwynhau eu hamser yn y Cylch Meithrin. Ar y cyfan maent yn teimlo'n gartrefol yn eu cynefin ac mae hyn yn cyfrannu tuag at ddatblygu eu hunanhyder. Mae'r staff wedi meithrin perthynas gyfeillgar a gofalgwr gyda'r plant a rhoddir sylw i anghenion unigolion. Mae'r plant yn elwa o fynychu'r Cylch ac yn derbyn gofal cyfeillgar sy'n anogaeth i'w datblygiad.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Rhoddir sylw i ddymuniadau'r plant wrth ddewis gweithgareddau a theganau i chwarae a gwrandewir arnynt.

Mae'r plant yn elwa o gael dewis o amrywiaeth o weithgareddau a theganau yn ystod cyfnod o chwarae rhydd. Gwelsom y plant yn dewis o blith gwaith celf, ceir bach, jig-so, posau, addurno hosan Nadolig a chwarae trê'n bach ar y cledrau. Gwelsom y plant yn cael rhyddid i symud o un gweithgaredd i'r llall yn ôl eu mympwy eu hunain. Mae hyn yn cynorthwyo'r plant i ddatblygu annibyniaeth ac i fynegi barn am y gweithgareddau. Roedd y staff yn ymateb i ddymuniadau unigolion ac yn sgwrsio efo'r plant wrth iddynt chwarae, gan eu hannog a'u procio yn barhaus er mwyn datblygu eu hiaith.

Mae'r staff yn rhoi cyfleoedd digonol i'r plant fynegi eu hunain ac yn gwrandao ar eu hymatebion.

1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus a chyfforddus gyda'r staff ac roedd amryw ohonynt yn ddigon hyderus i sgwrsio gyda'r arolygwyr.

Mae perthynas hyfryd wedi ei meithrin rhwng y plant a'r staff sy'n galluogi'r mwyafrif ohonynt i ymdopi'n hawdd gydag absenoldeb eu rhieni. Gwelsom bod un o'r plant wedi cynhyrfu ar ôl i'r rhiant adael ond cafodd sylw digonol gan y staff a'i ddenu i chwarae hyd nes yr oedd wedi ymgartrefu yn y Cylch. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn sgwrsio gyda nhw am eu teuluoedd. Gwelsom y staff a'r plant yn tynnu coes ac yn cael llawer o hwyl yn enwedig wrth chwarae gyda'r plu eira. Mae hyn yn parhau i feithrin a datblygu'r berthynas sydd rhyngddynt. Gwelsom bod nifer helaeth o'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch gydag eraill ac yn cyd-chwarae gan ddatblygu sgiliau cymdeithasol.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a dedwydd yng nghwmni'r staff ac yn cael eu trin gydag addfwynder a pharch.

1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau dod i ddeall eu teimladau ac yn defnyddio hyn i reoli eu hymddygiad, cydweithio a chymryd eu tro sy'n arwain at feithrin perthynas gyda'u cyfoedion ac eraill.

Mae'r plant yn elwa o'r pwyslais sydd ar ganmoliaeth gyson yn y Cylch hwn. Gwelsom un o'r plant yn rhannu'n ddi-gymell wrth chwarae gyda'r trê'n bach a'r arweinydd yn ei chanmol ac annog y plant eraill i ddiolch. Mae'r staff yn annog ymddygiad derbyniol ac atgoffa'r plant am ddiogelwch mewn ffordd gadarnhaol. Gwelsom y staff yn rhesymu a sgwrsio efo plentyn pan oedd eisiau cymryd tegan oddi ar blentyn arall. Mae hyn yn ysgogi'r plant i arddangos ymddygiad dderbyniol ac ystyried eraill.

Mae'r plant yn derbyn esiampl dda o sut i feithrin perthynas ag eraill a sut i barchu teimladau eraill. Mae hyn yn gymorth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plant.

1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd chwarae a dysgu sydd ar eu cyfer.

Gwelsom y plant bron i gyd yn chwarae gydag amrywiaeth o deganau ac yn ymgysylltu â gweithgareddau amrywiol drwy gydol y cyfnod arolygu. Gwelsom bod un o'r plant ddim eisiau ymuno gyda'r lleill yn ystod y cyfnod chwarae ac yn gafael mewn pensil. Aeth yr arweinydd at y plentyn gyda darn o bapur er mwyn tynnu llun. Gwelsom rai o'r plant yn gwirfoddoli i ganu'n unigol ac yn mwynhau gwneud. Rhoddwyd cyfle i'r lleill i ganu hefyd os dymument. Ar un adeg hefyd clywsom sŵn hofrennydd tu allan ac arweiniwyd y plant at y ffenestr i chwilio am yr hofrennydd a chafwyd sgwrs am waith yr hofrennydd yn achub pobl gan annog datblygiad iaith y plant. Roedd y plant yn cyfranogi mewn ystod amrywiol o weithgareddau, ond argymhellir cynnwys rhai gweithgareddau strwythuredig yn ystod y cyfnod.

Mae'r plant yn derbyn amrywiaeth ddigonol o weithgareddau a chyfleoedd chwarae sy'n eu galluogi i ddysgu a chwarae a chael mwynhad.

1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd digonol ar y cyfan i ddysgu a dod yn annibynnol.

Yn ystod y cyfnod arolygu gwelsom bod y plant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo eu hunain ar ôl gweithgaredd gelf. Hefyd gwelsom bod y plant yn defnyddio'r toiled yn annibynnol. Mae'r plant yn eistedd wrth y byrddau i fwyta byrbryd. Fodd bynnag awgrymir bod angen annog annibyniaeth y plant fwyfwy ar yr adeg hwn a'u hannog i helpu gosod y byrddau a dosbarthu'r cwpanau a'r platiau.

Mae'r plant yn derbyn esiampyl dda ac anogaeth i feithrin annibyniaeth yn eu datblygiad.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae'r gofalwyr yn y Cylch Meithrin wedi llwyddo i feithrin perthynas gynnes gyda'r plant ac wedi creu awyrgylch ofalgar. Mae'r arweinydd yn dangos dealltwriaeth o bolisiâu a gweithdrefnau allweddol.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gofalwyr yn ymwybodol o weithdrefnau angenrheidiol i sicrhau diogelwch ac iechyd y plant, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hymarfer.

Mae'r Cylch yn rhan o Gynllun Cyn-ysgol Iach. Mae aelodau staff y Cylch yn sicrhau bod ardal y toiledau yn lân ac yn barod ar gyfer plant y Cylch ar ôl i ddsbarth Meithrin yr ysgol gynradd adael. Hefyd maent yn sicrhau bod tyweli papur a sebon hylif wedi ei gosod allan yn barod. Cyn i'r plant dderbyn eu byrbryd, gwelsom un o'r gofalwyr yn golchi'r byrddau ac yn gwisgo menig cyn estyn powlenni a chwpanau. Hefyd roeddynt yn sicrhau bod y plant i gyd yn golchi eu dwylo cyn derbyn eu byrbryd iach o ffrwythau a diod o lefrith. Cynhelir driliau tân ar y cyd gyda'r ysgol gynradd a gwelwyd cofnodion i dystiolaethu hyn. Hefyd dywedwyd wrthym fod y Cylch yn trefnu driliau tân eu hunain ond ni welwyd cofnodion. Mae'r staff yn ymwybodol o Bolisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant er dylid ond argymhellir sicrhau bod y wybodaeth yma'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae'r staff yn gweithredu polisiâu a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelwch ac iechyd y plant, fel y gall y plant ffynnu mewn amgylchedd diogel.

2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn arwain drwy esiampl o ymddygiad derbyniol. Hefyd mae'r staff yn rhoi sylw digonol i unigolion.

Mae'r staff wedi meithrin perthynas gynnes gyda'r plant i greu awyrgylch gartrefol yn y Cylch, gan weithio'n unol â Pholisi'r Cylch ar Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol. Mae'r staff yn annog ymddygiad cadarnhaol yn barhaus gan ddefnyddio perswâd cadarnhaol a chanmoliaeth gyson. Gwelsom y staff yn sgwrsio efo'r plant yn ystod gweithgarwch celf ac yn datblygu eu hiaith. Roedd y staff yn amyneddgar gyda phlant oedd angen mwy o sylw, yn siarad yn bwyllog i hwyluso dealltwriaeth ac yn rhoi cysur pan oedd angen.

Roedd y pwyslais amlwg ar ymddygiad cadarnhaol a'r ganmoliaeth ddilynol yn anogaeth gadarn i'r plant.

Mae'r staff yn llwyddo i osod terfynau ymddygiad ac arwain y plant drwy esiampyl gadarn a chlr.

2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn gwneud ymgais i ddarparu amgylchedd ysgogol lle gall pob plentyn ddatblygu ar ei gyflymder unigol. Mae'r Arweinydd yn ymwybodol o ddatblygiad pob unigolyn ac yn ymblethu hyn i'w chynlluniau.

Mae'r Arweinydd yn cadw tystiolaeth sy'n cofnodi datblygiad pob unigolyn gan ddilyn canllawiau a meini prawf asesu'r Cyfnod Sylfaen. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio gwaith fesul datblygiad y plant sydd hefyd yn ymateb i anghenion unigolion. Hefyd gwelsom dystiolaeth o Lyfrau Trysor digidol cynhwysfawr iawn.

Mae'r Arweinydd yn llwyddo i greu cynlluniau o weithgareddau sy'n ymatebol i ddatblygiad ac anghenion y plant ac awgrymir ei bod yn sicrhau argaeledd y wybodaeth yma er mwyn ei rannu gyda'r cynorthwyr.

3. Yr amgylchedd

Crynodeb

Mae'r Cylch Meithrin yn cael ei gynnal mewn caban ar safle Ysgol Gynradd y Felinheli sydd hefyd yn defnyddio'r ystafell bob bore ar gyfer dosbarth meithrin. Mae'n ystafell addas gyda chyntedd ac ardal doiledau wrth law. Mae'r adnoddau a'r dodrefn o ansawdd da er y ceir ychydig o ddryswch ynghylch rhannu adnoddau. Ar hyn o bryd mae'r plant yn defnyddio buarth yr ysgol i chwarae allan oherwydd niwed storm yn eu hardal benodol.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae digon o ofod i'r plant chwarae'n rhydd a diogel tu fewn a thu allan. Mae'r staff yn ymwybodol o'r risgiau a'r peryglon wrth i'r plant estyn amrywiaeth o deganau i chwarae a chlywsom y staff yn eu hannog i dacluso yn rheolaidd i leihau'r risg o ddamweiniau i blant eraill Mae'r drws allanol i'r Cylch wedi ei gloi ac ni cheir mynediad i'r cyntedd heb fod aelod o staff yn bresennol. Cynhelir Aseiad Risg cyflawn bob hanner tymor, a hefyd ceir gwiriad dyddiol a gwelwyd cofnod o hyn.

Mae'r staff yn ystyried ac asesu unrhyw risgiau sy'n codi yn barhaus. Maent wedi llwyddo i greu amgylchedd sy'n ddiogel i'r plant.

3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r staff yn ymdrechu i sicrhau bod yr amgylchedd tu fewn a'r tu allan yn ddiogel a chroesawgar i'r defnyddwyr. Mae yma ofod digonol ac adnoddau i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae'r ystafell yn hwyluso annibyniaeth a datblygiad y plant. Ni cheir gofod penodol i gynnal sgwrs gyfrinachol gyda'r rhieni.

Gwelsom bod ymgais wedi ei wneud i osod yr ystafell mewn gwahanol ardaloedd er byddai mwy o eglurder ac amrywiaeth yn cyfoethogi profiadau'r plant. Mae'r ystafell yn galluogi'r plant i chwarae a dysgu ac arbrofi a hynny gyda'r sicrwydd o'u diogelwch. Mae'r ystafell ymolchi yn hygyrch i'r plant ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r plant yn eistedd wrth fyrddau gyda'i gilydd i fwyta'u byrbryd ac amser cinio. Mae mynediad diogel i'r ardal tu allan sydd wedi eu hamgáu gyda ffens. Oherwydd bod y Cylch yn rhannu'r ystafell gyda'r ysgol

tynnwyd ein sylw at y prinder gofod ar y waliau. Serch hynny gwelsom arddangosfa liwgar o waith y plant sy'n rhoi teimlad o berthyn iddynt.

Mae'r staff wedi llwyddo i ddarparu amgylchedd croesawgar a hwyliog i'r plant sy'n hwyluso eu datblygiad.

3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r Cylch yn darparu cyfarpar ac adnoddau digonol i'r plant sydd yn addas i'w hoed a'u datblygiad ac o ansawdd safonol.

Gwelsom bod y dodrefn a'r cyfarpar sydd yn y Cylch yn addas ac o ansawdd da. Mae hyn yn deillio o'r berthynas sy'n bodoli rhwng y Cylch a'r ysgol. Awgrymir bod cyfleoedd yn cael eu creu i adeiladu ar y berthynas yma wrth gynllunio i ddatblygu'r stôr adnoddau a sut i'w gosod yn yr ystafell er budd y plant. Mae'r adnoddau sydd yna yn gydnaws ag ethos y Cyfnod Sylfaen ac yn hybu datblygiad y plant wrth iddynt ddysgu drwy chwarae. Mae'r staff yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau addasrwydd yr adeilad a'r adnoddau yn y cyfnod byr rhwng terfyn y dosbarth Meithrin a chychwyn y Cylch Meithrin. Mae'r ardal tu allan yn addas ar gyfer darparu cyfleoedd chwarae a dysgu i'r plant a chedwir teganau pwrpasol yn y sied tu allan.

Mae'r adnoddau a'r cyfarpar sydd ar gael yn y Cylch yn ddigonol i ddarparu cyfleoedd addas i ddiwallu anghenion y plant a'u hannog i ddysgu ac arbrofi drwy chwarae.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae'r Arweinydd a'r Person Cofrestredig, y cawsom gyfle i siarad â hi, yn deall eu cyfrifoldebau yng nghyswllt Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) i raddau helaeth.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r Arweinydd wedi gweithio'n ddiwyd i ddiweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau a Datganiad o Ddiben y Cylch yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae angen sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ar fyrder.

Mae'r staff yn ymwybodol o'r Polisiâu a'r Gweithdrefnau a gwneir ymdrech gydwybodol i'w hymgorffori yn eu harferion bob dydd. Mae gan y Cylch Ddatganiad o Ddiben sy'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Trafodwyd gyda'r Arweinydd yr elfennau oedd angen eu diwygio a'u cynnwys er mwyn sicrhau bod y Datganiad yn gyflawn megis manylion am y cyfleusterau, manylion cyswllt, trefniadaeth ar gyfer argyfwng a threfniadaeth adolygu'r Datganiad yn gyson a hysbysu AGGCC o unrhyw newidiadau. Argymhellir bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn ei gyflwyno i rieni. Gwelsom enghreifftiau o ffeiliau'r plant a chanfod eu bod yn gyson gynhwysfawr, yn gyfredol a'r ffurflenni oedd angen eu harwyddo wedi gwneud. Mae'r Arweinydd yn gweithio'n ddyfal iawn yn y Cylch ond argymhellir ei bod yn rhannu'r holl wybodaeth gyda gweddill y staff a'r Personau Cofrestredig, a hefyd yn rhannu rhai o'r dyletswyddau.

Mae'r Arweinydd yn ateb gofynion y safonau cenedlaethol i raddau helaeth ac yn cadw ei gwaith papur yn drefnus.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae rhai systemau mewn lle er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth.

Gwelwyd tystiolaeth o gasglu gwybodaeth ar gyfer adroddiad ansawdd ac awgrymir bod y darparwr yn defnyddio'r wybodaeth yma er mwyn llunio i Adroddiad Ansawdd Gofal a fydd hefyd yn cynnwys barn y rhieni a'r plant o'r gwasanaeth. Atgoffwyd yr Arweinydd o'r gofyn am anfon Adroddiad Ansawdd Gofal yn flynyddol i AGGCC. Gwelsom y llyfrau sy'n cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddiwyddiadau a gwelwyd eu bod mewn trefn. Dywedodd yr Arweinydd nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gwynion a bod y rhieni yn hapus

gyda'r ddarpariaeth. Awgrymir bod mwy o strwythur yn cael ei gyflwyno wrth gasglu barn y rhieni.

Mae seiliau cadarn wedi eu gosod er mwyn hunan-arfarnu'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer ei wella, fodd bynnag mae'n rhaid bwrw'r maen i'r wal a sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni.

4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r staff presennol wedi mynychu sesiynau ymsefydlu ar ôl dechrau yn y swydd ac yn derbyn cefnogaeth.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn rhoi cefnogaeth i'w gilydd. Fodd bynnag byddai'r gwasanaeth yn elwa petai'r Arweinydd yn rhannu mwy o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau gyda'r staff eraill. Gallai hyn arwain at fwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r gwasanaeth gan y gweithwyr i gyd. Mae gan yr Arweinydd sgiliau rheoli ac arweinyddiaeth da a byddai rhannu dyletswyddau yn rhoi mwy o amser a gwell cyfle iddi ganolbwyntio ar y sgiliau hynny. Gwelsom fod y mwyafrif o'r ffeiliau staff yn gyflawn a dywedwyd wrthym fod y dogfennau oedd ar goll yng ngofal y Person Cofrestredig.

Ar gyfan mae staff y Cylch Meithrin yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Bydd gwella'r arfer o rannu dyletswyddau yn arwain at staff sy'n hapus ac yn rhoi o'u gorau er lles y plant.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y Cylch a'r rhieni a chynhelir noson rieni dwywaith y flwyddyn. Mae'r cyswllt cyfathrebu sydd rhyngddynt yn anffurfiol ar hyn o bryd.

Yn ystod yr arolwg cawsom gyfle i siarad gyda rhai o'r rhieni wrth iddynt hebrwng eu plant i'r Cylch. Roedd pob un o'r rhieni yn canmol y gwasanaeth yn fawr, ac yn sôn am y cyswllt agos sy'n bodoli rhyngddynt a'r Cylch. Roedd y rhieni yn gwerthfawrogi bod y staff yn barod i gael sgwrs ar ddiwedd sesiynau, a hefyd yn canmol y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth. Gwelsom bod gwybodaeth hanfodol wedi ei arddangos yn y cyntedd.

Mae'r berthynas hon yn galluogi'r staff i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch gofal a datblygiad y plant, a hefyd yn diweddarau rhieni ynghylch datblygiadau eu plant eu hunain.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan yr arolygiad hwn

Dim

5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- Argymhellir cynnal cyfarfod staff a hyfforddiant mewnol er mwyn ymgyswngwyo fwy gyda pholisïau a gweithdrefnau ac i gynnal gwybodaeth staff o'u dyletswyddau;
- Argymhellir bod arferion o fwy o gydweithio, rhannu gwybodaeth a chyfrifoldebau yn cael eu mabwysiadu er mwyn hwyluso'r gweithdrefnau arweinyddiaeth a rheolaeth;
- Argymhellir cwblhau diweddariadau o ddogfennau hanfodol ar fyrder gan lenwi'r bylchau a drafodwyd yn ystod yr arolygiad
- Argymhellir bod mwy o gyfleoedd yn cael eu rhoi amser byrbryd er mwyn datblygu annibyniaeth y plant.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd yn ymweliad dirybudd. Cyrhaeddom y Cylch am 10.30 a gadael y lleoliad am 16.00 ar yr ymweliad cyntaf, ac ar yr ail ymweliad cyrhaeddom am 12.44 a gadael am 14.50 er mwyn arsylwi'r plant a'r gofal ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys amser ar y prynhawn cyntaf i sgwrsio ymhellach gyda'r Arweinydd ac un o'r Personau Cofrestredig. Buom yn arsylwi tu fewn a thu allan yn y Cylch. Hefyd:

- adolygwyd gwybodaeth oedd eisoes gan AGGCC – sef y SASS a'r Adroddiad o'r arolygiad diwethaf;
- siaradom gyda rhai o'r plant a thri o'r rhieni. Hefyd siaradom gyda'r ddwy aelod o staff a'r Personau Cofrestredig;
- edrychom ar ystod eang o gofnodion sef datganiad o ddiben, ffeiliau staff, polisïau a chofnodion, ffeiliau plant a rhestrau gwirio.
- arolygwyd ymarferion a gweithdrefnau yn ystod yr arolwg gan gwblhau arsylwad SOFI2 er mwyn casglu tystiolaeth ar ymgysylltiad plant a'r gofal a ddarperir gan staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan www.aggcc.org.uk

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal dydd sesiynol
Person(au) Cofrestredig Unigolyn Cyfrifol	Sian Williams Meleri Jones
Person â Gofal	Rhian Jones
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	20
Ystod oedran y plant	2½ hyd at oed ysgol
Oriau agor	11.00 13.05 13.30 – 15.30
Prif iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	19/09/13
Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn	13/12/16 a 14/12/16
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?	Ydy
Gwybodaeth ychwanegol:	

